# Papur y Bwrdd

## ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR – CYFARFOD Y BWRDD, GORFFENNAF 2016

1. **Cyfarfodydd** – Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd rwyf wedi cynnal y cyfarfodydd/ymweliadau canlynol (nad ydynt wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cadeirydd):

   - Uwch-reolwyr Ymddiriedolaethau Natur – cyfarfu ein Tîm Gweithredol ag uwch-reolwyr yr Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru, gan rannu gwybodaeth am faterion a syniadau cyfredol.
   - Ramblers Cymru – Cefais gyfarfod ag arweinwyr Ramblers Cymru, a bu i ni adnabod meysydd lle y gallem gydweithio'n agosach.
   - Derbynwest Porthladdoedd Cymru – Mae cyfarfodydd pellach wedi'u trefnu ag uwch-weithredwyr Porthladdoedd Cymru.
   - Cynhadledd y Sefydliad Materion Cymreig – Bûm yn annerch yng nghynhadledd y Sefydliad Materion Cymreig ynghylch gwneud busnes yng Nghymru a'r dirwedd sy'n newid. Roedd yr araith yn ystyried goblygiadau Deddf yr Amgylchedd i fusnesau.
   - Bûm yn ymweld â thîm Rheoli Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghastell-nedd Port Talbot / Pen-y-bont ar Ogwr gan ymweld â phedwar o'n prosiectau cyfredol - prosiect bioamrywiaeth Resolfen, safle cloddio glo brig Nant Melyn, safle adfer mawnog Cregyn, Coetir Ysbryd y Llynfi.

2. **Elusennau cyswllt** – Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi cytuno ar ein helusennau cyswllt ar gyfer 2016-17, sef Maint Cymru, Water Aid, Tree Aid. Rydym wrthi'n gweithio ar ein deunydd cyfathrebu mewnol ynghylch yr elusennau.

3. **Prifysgolion** – Rwyf wedi nodi o'r blaen i mi lofnodi Memorandwm Dealltwriaeth gyda Phrifysgolion Cymru, ac rwy'n falch o ddweud bod Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn aelod o Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru, a fydd yn gwella'r mynediad sydd gennym trwy Wasanaethau Gwybodaeth i adnoddau ymchwil allanol ac yn ein galluogi i gyfnewid gwybodaeth.

**Emyr Roberts** **21 Mehefin 2016**